**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At :
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi i:
Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid,
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Hydref 2014

Annwyl Gyfeillion,

**Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16**

Heddiw rwyf yn cyhoeddi manylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16 i'r awdurdodau lleol yng Nghymru trwy Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet. Amgaeaf y datganiad er gwybodaeth ichi.

O fewn y setliad dros dro hwn daw cyllid refeniw heb ei neilltuo ar gyfer 2015-16 i £4.124 biliwn. Mae'r arian dros dro a gyhoeddwyd heddiw'n ostyngiad o 3.4% (£146 miliwn) ers 2014-15, o'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r Setliad ac allan ohono.

Yn y swm hwn cynhwysir swm ychwanegol o £10 miliwn i gydnabod y gwasanaethau gofal cymdeithasol hanfodol a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Cynhwysir yn y Setliad hwn hefyd arian i gefnogi ymrwymiad y Prif Weinidog i amddiffyn arian ysgolion sy'n cyfateb i 1% uwchlaw'r newid yng Nghyllideb Refeniw Llywodraeth Leol oddi wrth Lywodraeth y DU.

Daw arian cyfalaf ar gyfer 2015-16 i £399.3 miliwn ac mae'n adlewyrchu gostyngiad o 1.1% o'i gymharu â 2014-15.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Mae *Adroddiad Cyllid Drafft Llywodraeth Leol* a'r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad Dros Dro yn ôl awdurdod lleol unigol yn cael eu cyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Leol. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau awdurdodau lleol unigol o Gyllid Allanol Agregedig (AEF). Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw (RSG) ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol wedi'u Hailddosbarthu (NNDR), ac fe'u cyhoeddir ar wefan Llywodraeth Leol. Hoffwn dynnu'ch sylw at y canlynol:

a) Seilir y Setliad Dros Dro ar ffigur y sylfaen drethi ar gyfer 2014-15. Bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru ar gael ar gyfer y Setliad Terfynol o ffurflenni CT1 yr awdurdodau ar gyfer 2015-16.

b) Rhaniad dros dro yw'r rhaniad rhwng RSG ac NNDR ac mae'n bosibl y bydd newidiadau pellach i'r rhaniad hwn. Er hynny, ni fydd hyn yn effeithio ar ddosbarthiad cyffredinol y Setliad.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi ar ein gwefan yr wybodaeth sydd ar gael am grantiau refeniw a chyfalaf ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2015-16. Gobeithio gallu ychwanegu at yr wybodaeth hon adeg y Setliad Terfynol.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw'n lansio cyfnod ymgynghori ffurfiol o 6 wythnos ar Setliad dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn dod i law **erbyn dydd Mercher 19 Tachwedd 2014 fan bellaf**. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Clare Smith
Y Gangen Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Llywodraeth Leol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
Neu e-bostiwch: LocalGovernmentSetliad@Wales.gsi.gov.uk.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) pob ymatebwr ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych am gael eich enwi fel awdur eich ymateb, byddwch cystal â sicrhau'ch bod yn nodi hyn yn glir yn eich ymateb.

Mae'n bosibl y caiff copïau o'r ymatebion eu gosod yn llyfrgell y Cynulliad. Os hoffech i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â gwneud hyn yn glir yn eich ateb. Caiff hyn ei ystyried yng ngoleuni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad penodedig cyn i benderfyniad gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir Awdurdodau Lleol am y gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n gymwys. Dylai effeithiau cyllidebol o safbwynt cydraddoldeb gael eu hasesu a llywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae'r Setliad Dros Dro'n rhoi ichi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i gynllunio'ch cyllidebau ar gyfer 2015-16. Hoffwn eich annog yn gryf i ystyried pa ddull o ymgysylltu â'ch cymunedau lleol wrth lunio'ch cynigion a gwneud penderfyniadau am y gyllideb sy'n gweithio orau. Yn gynharach eleni, gofynnodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ichi ddarparu gwybodaeth am eich gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch cyllidebau ar gyfer 2014-15. Mae gwersi allweddol yr ymarfer hwn wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan:
http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/public-engagement-during-budget-setting/?skip=1&lang=cy

Hoffwn dynnu'ch sylw hefyd at y Gronfa Buddsoddi i Arbed a gafodd ei hagor ar gyfer ceisiadau newydd gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 7 Hydref. Mae'r Gronfa eisoes wedi cefnogi nifer sylweddol o brosiectau ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae wedi'u helpu i ymateb i'r her sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon a chanlyniadau i ddinasyddion yn ystod cyfnod lle mae cyllidebau'n cae eu gwasgu. Mae'r Gronfa'n un o nifer o ddulliau gweithredu sy'n gallu helpu gyda phrosiectau sy'n anelu at hybu'r agenda diwygio'r sector cyhoeddus.

Trefnir bod cyfanswm o £38 miliwn ar gael trwy'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn 2015-16 i'w fuddsoddi mewn prosiectau newydd. Ar ben hynny, trefnir bod swm ychwanegol o £1.5 miliwn ar gael eleni ac yn 2015-16 sydd wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau a fydd yn cyfrannu at leihau targedau carbon. Hoffwn eich annog i ystyried cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau i'w hystyried. Mae gwybodaeth bellach am y gronfa a chylch ceisiadau eleni i'w cael trwy ddilyn y ddolen Buddsoddi i Arbed yn:
http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/?skip=1&lang=cy

Yn gywir,

Leighton Andrews

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services